

No.

## CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod Arbennig o bell a gynhaliwyd am 6.05 p.m. ar 20 Tachwedd, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Julie Aviet (Maer); Councillors Anne Asbrey, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Sally Hanks, Howard Hamilton, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood

### 524 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 525 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Christine Cave, Robert Fisher, Russell Godfrey, Naomi Marshallsea a Steffan Wiliam.

### 526 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 527 ADRODDIAD HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –

Nododd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn nodi manylion y drafft terfynol ar gyfer Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg.

Cyfeiriodd at ddechreuad y ddogfen a oedd yn cynnwys nifer o gyfarfodydd yn cynnwys Cyfarwyddwyr, her cyfoedion, Aelodau Cabinet, Cadeiryddion Craffu yn adolygu'r hunanasesiad a sut roedd yn berthnasol i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan ddiweddu gyda'r drafft yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 7 Medi cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn dychwelyd i'r Cabinet ar 19 Hydref. Cafodd yr adroddiad hunanasesiad drafft terfynol ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref cyn cael ei ystyried yn derfynol gan y Cabinet ar 2 Tachwedd 2023.

Cyfeiriodd at y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgorau Craffu ynghylch hygyrchedd yr adroddiad ac aeth i'r afael â'r mater drwy nodi mai'r bwriad oedd cynhyrchu a dosbarthu dogfen gryno gyhoeddus fel rhan o waith ymgysylltu wedi'i llywio gan adborth gan drigolion ac Aelodau ar sut yr hoffent i wybodaeth ar berfformiad y Cyngor gael ei hadrodd. Byddai hyn yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen o'r Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol a negeseuon byr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Trafododd hefyd y pwyntiau eraill a godwyd gan Bwyllgorau yn ymwneud â pherthnasedd a dileu wedyn y risg i'r Cyngor mewn perthynas â Brexit, cyflwyno cyfarfodydd hybrid, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori ynghylch sut yr oedd y Cyngor yn blaenoriaethu ei wariant. Byddai angen i'r Aelodau ganolbwyntio ar y maes hwn yn yr ystriaethau cyllidebol sydd ar ddod o ystyried y ffaith bod y Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu a Sgiliau yn defnyddio cyfran sylweddol o'r gyllideb (74%) a bod gwasanaethau eraill y Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol eithafol.

Cyfeiriodd hefyd at y gwaith i hyrwyddo i ddinasyddion Bro Morgannwg y cyllidebau sydd ar gael, y penderfyniadau gwario disgresiynol i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth, ac at y bwriad o godi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r broses ôl-osod cyllideb drwy gydol y flwyddyn ac adlewyrchwyd hyn yn yr Hunanasesiad Blynyddol fel maes ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. O ran ymgysylltu â'r cyhoedd, roedd yr heriau a'r blaenoriaethau hanfodol yn faes ffocws pellach ac fe'i cynhwyswyd yn yr Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol a chyfeiriodd at yr arolwg "Gadewch i ni Siarad am Fyw yn y Fro" a ddefnyddir i lywio penderfyniadau'r Cyngor ac i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer grwpiau ffocws i sicrhau bod yr holl drigolion yn cael eu cynrychioli, gan gynnwys y grwpiau hynny nas clywir yn aml.

Wrth gloi, nododd yr Arweinydd ei fod yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o'r Aelodau wedi cymryd rhan mewn o leiaf un cyfarfod lle'r oedd yr Asesiad wedi'i drafod, os nad oeddent wedi cymryd rhan yn y trafodaethau hunanasesiad cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod yr haf.

Dywedodd yr Arweinydd y dylid cymeradwyo'r safbwyntiau, y drafodaeth a'r sylwadau a wnaed ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13, 18 a 20 Medi 2023 yn y drefn honno, ac y dylai canfyddiadau cryno'r ymgynghoriad ac adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Terfynol Bro Morgannwg 2022/23 wedi'i ddiweddarau gael eu cymeradwyo.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Brooks.

Roedd y Cynghorydd Hooper, gan gydnabod sylwadau'r Arweinydd, o'r farn bod yr adroddiad yn gyfle a gollwyd. Roedd yn falch o weld rhai heriau a ddaeth drwy'r broses graffu yn cael eu hadlewyrchu yn y naratif wedi'i newid, yn arbennig o falch o ran Prosiect Sero, yr oedd y Cyngor yn cydnabod y byddai'n heriol dros ben. Roedd yn falch o glywed yr Arweinydd yn cyfeirio at yr angen am wella hygyrchedd yr adroddiad hwn yn y dyfodol a hefyd yn falch o weld y cyfeiriad at Brexit yn cael ei ddileu. Roedd o'r farn y gellid ystyried yr adroddiad yn rhy gadarnhaol ac i fod yn ddefnyddiol i'r Aelodau a'r cyhoedd roedd am weld yr adroddiad yn adlewyrchu camau gweithredu'r Cyngor yn gywir o ran profiad trigolion y Fro. Dywedodd na wnaeth yr Hunanasesiad hwn hyn ac am y rheswm hwn nododd na fyddai Grŵp Plaid Cymru yn cefnogi cymeradwyo'r adroddiad.

Gan adlewyrchu sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Hooper, cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at sylwadau'r Arweinydd a'r ymgynghoriad ar yr Hunanasesiad Blynyddol trwy amrywiol bwyllgorau'r Cyngor a'r cysylltiad â Chynllun Corfforaethol a Chynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor. Y prif beth a gymerodd o'r adroddiad oedd bod y weinyddiaeth wedi sgorio ei pherfformiad yn dda ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol, gan gynnwys ar ddefnyddio adnoddau. Roedd yn credu y byddai trigolion yn synnu at yr asesiad hwnnw. Wrth edrych ar record y Cyngor yn y flwyddyn dan sylw, dywedodd fod y Dreth Gyngor wedi cynyddu eto, fodd bynnag, trwy reoli'r gyllideb yn well, roedd modd rhewi'r Dreth Gyngor. Teimlai nad oedd y Weinyddiaeth wedi defnyddio cyfnod 2022-2023 fel cyfle i wella'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cael ei redeg. Wrth ystyried dangosydd allweddol yn yr adroddiad, defnyddio adnoddau, nid oedd materion wedi gwella, sydd wedi arwain at gynnydd arall yn y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Cyfeiriodd hefyd at faterion gyda chasgliadau gwastraff a'r gwasanaeth gwastraff gardd gyda thâl yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr olaf. Er bod yr Hunanasesiad wedi'i gwblhau yn ddiwyll ac yn onest, roedd yn rhithiol yn ei farn ef. Wrth edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf wrth fesur perfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion allweddol, ni allai weld sut yr ystyriwyd bod y rhain yn dda ac roedd yn amlwg iddo fod yn rhaid i'r Cyngor wella. Nododd na fyddai'n cymeradwyo'r adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Franks o'r farn y byddai trethdalwyr y Cyngor yn synnu ei fod yn cael ei ystyried bod y Cyngor yn bwrw ei dargedau a bod y Cyngor o'r farn bod ei berfformiad yn dda. Prif ymateb trigolion fyddai bod y Cyngor ar fin methu. Wrth ystyried cyllidebau ysgolion, cyflwr priffyrdd a phalmentydd, ardaloedd chwarae, canolfannau cymunedol a'r dirywiad mewn gwasanaethau bysus, bu cryn feirniadaeth gan drigolion yn ymwneud ag ystod eang o faterion. Roedd yn siomedig nad oedd y Weinyddiaeth wedi cyflawni ar gyfer ei thrigolion. Nododd na fyddai'n cefnogi argymhellion yr adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Mahoney o'r farn bod yr adroddiad yn chwerthinllyd wrth ystyried canlyniadau ymgysylltu â thrigolion. Roedd o'r farn bod yr ymgynghoriad yn ffug. Cyfeiriodd at ymgynghoriad diweddar yn ei Ward yn ymwneud â newidiadau i ffiniau wardiau lle nad oedd trigolion wedi cael gwybod am yr ymgynghoriad. Nid oedd yn gweld sut y gallai'r Cyngor sgorio ei berfformiad yn dda pan oedd y mwyafrif o'r ymatebion yn nodi'r gwrthwyneb. Cydnabu fod

No.

rhedeg awdurdod lleol yn anodd gyda'r cyfyngiadau ariannol, ond roedd yn amlwg iddo nad oedd y Cyngor wedi mynd â'r cyhoedd gydag ef, nododd na fyddai'n cefnogi argymhellion yr adroddiad.

Nid oedd y Cynghorydd Wilson gan gyfeirio at sylwadau'r siaradwyr blaenorol o'r farn bod y rhain yn seiliedig ar unrhyw ffeithiau ar wahân i sylwadau anecdotaidd ar ymatebion i'r ymgynghoriad. Y ffaith oedd bod y Cyngor yn gwneud gwelliannau, enghraifft o hyn oedd y ganolfan ailgylchu adnoddau yn Ystâd Masnachu'r Iwerydd. Gan gyfeirio at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Carroll yn ymwneud â materion Treth Gyngor, y ffaith oedd bod y codiad yn y Dreth Gyngor yn sylweddol is na chwyddiant bryd hynny. Roedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r rhesymau dros chwyddiant uwch ar bron i 10% ac roedd hynny oherwydd Llywodraeth Geidwadol y DU. Nid oedd unrhyw Aelod yn dymuno codi'r Dreth Gyngor, ond heb wneud hynny byddai'r Cyngor yn defnyddio ac yn rhedeg allan o gronfeydd wrth gefn yn yr un modd â'r Cynghorau hynny a oedd eisoes wedi gwneud hynny, gan gyfeirio at Gyngor Woking sydd dan reolaeth y Ceidwadwyr. Roedd yn rhyfeddu nad oedd y Cynghorydd Carroll wedi datgan unrhyw beth a oedd yn adeiladol o ystyried yr heriau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu. Llywodraeth Geidwadol y DU oedd ar fai.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson, gan gyfeirio at y sylwadau a wnaed gan y siaradwyr blaenorol, nad oedd yn syndod na fyddai'r cyhoedd yn cymryd yr adroddiad o ddifrif gan fod y Cyngor yn marcio ei waith cartref ei hun. Roedd yn falch bod yr Arweinydd yn mynd i'r afael â'r hygyrchedd a rhai o'r syniadau a gyflwynwyd. Fodd bynnag, roedd y rhain yr un fath â'r flwyddyn flaenorol ond ni weithredwyd arnynt. Yr her i fynd i'r afael â hi oedd bod y Weinyddiaeth yn ystyried ei hun yn wahanol i'r ffordd yr oedd y cyhoedd yn ei hystyried o ran perfformiad ehangach y Cyngor. Roedd hefyd o'r farn ei bod yn beryglus dewis y pethau hynny yr oedd y Cyngor yn well wrth eu gwneud. Roedd yn credu ei bod yn rhyfedd bod yr adroddiad yn dweud bod popeth yn dda pan nad oedd wedi bod. Roedd yn bwysig myfyrio ar faterion nad oeddent wedi mynd mor dda a chywiro'r rhain a dyna pam ei bod yn bwysig gwella fformat yr adroddiad, gan gyfeirio at gyfarfodydd hybrid, gorwario ar system Oracle, oedi wrth gasglu gwastraff gwyrdd, cyfnewidfa fysis gwerth £3m a llawer o faterion eraill. Roedd llu o faterion nad oedd y Cyngor wedi gwneud yn dda arnynt. Roedd llawer o heriau a llawer o waith da roedd y Cyngor wedi'i wneud, ond roedd angen i'r adroddiad allu adlewyrchu'r ddau ac, felly, nid oedd yn adlewyrchiad cywir o berfformiad y Cyngor. O ystyried gofynion Adran 91 ac Adran 90 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn 2021, roedd angen i'r Cyngor fod â safbwynt mwy pendant ar hyn yn hytrach na dweud wrth bawb fod y Cyngor yn dda ac mai bai'r bobl oedd e am feddwl ei fod yn ddrwg. Nododd y byddai'n pleidleisio yn erbyn yr adroddiad a galwodd am bleidlais wedi'i chofnodi. Nododd y nifer perthnasol o Aelodau eu cytundeb.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Perry at ddieter trigolion am dorri coed yn ddiweddar heb esboniad yn Sain Nicolas ac at ddigwyddiadau a gweithredoedd tebyg eraill gan y Cyngor. Teimlai nad oedd yr adroddiad yn onest. Derbyniodd fod y Cyngor yn gwneud llawer o bethau da, cafodd hyn ei danseilio gan beidio â myfyrio ar yr hyn nad yw'n ei wneud cystal. Roedd meysydd lle roedd swyddogion yn gwneud yn

No.

dda a ddim cystal, ac roedd yn bwysig canolbwyntio ar y meysydd hyn nad oeddent wedi cael eu cydnabod yn yr adroddiad a oedd yn siomedig.

Ni dderbyniodd y Cynghorydd Brooks y feirniadaeth bod y Cyngor wedi bod yn anonest gyda'i asesiad o'i berfformiad. Cydnabu fod gwaith i'w wneud o hyd. Roedd yr amgylchedd yr oedd y Cyngor yn ei wynebu yn heriol gydag effaith sylweddol osod cyllideb Llywodraeth y DU. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn ymwneud â gwasanaethau anstatudol wrth wynebu gwasanaethau statudol a oedd yn amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed ac roedd blaenoriaethau wedi cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. Roedd yr Aelodau'n camliwio gwybodaeth o ran prosiectau a gynhaliwyd fel y gyfnewidfa fysus, nad oedd y Cyngor wedi eu hariannu.

Cafodd y Cynghorydd John ei syfrdanu gan rai o'r sylwadau a wnaed gan gofio bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgorau Craffu. Roedd yn amlwg y byddai'n well gan rai Aelodau chwarae gwleidyddiaeth. Roedd y sefyllfa'n anodd a byddai'n parhau felly. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol iawn o'r pwysau allanol a oedd yn effeithio ar bob Cyngor a oedd wedi cael effaith ar ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a rhai prosiectau.

Anghytunodd y Cynghorydd Hodges â sylwadau blaenorol a wnaed mewn perthynas ag ariannu'r gyfnewidfa fysus ac atgoffodd yr Aelodau mai arian cyhoeddus oedd e a phrosiect yr oedd y Cyngor am ei weld yn cael ei gyflawni. Gofynnodd a oedd diwydrwydd dyladwy wedi'i gyflawni ar y prosiect o ystyried y ffaith bod ychydig o fysus a oedd yn gweithredu o'r cyfleuster. Gan droi at fater cyllid a phwy oedd yn gyfrifol am gyllid cyffredinol y Cyngor, tra bo'r Weinyddiaeth yn beio Llywodraeth San Steffan y DU, roedd y Senedd dan reolaeth Llafur wedi cytuno i'r fformiwla ariannu yn y dyfodol. Nid oedd yn credu bod gofyn i Bwyllgorau Craffu nodi adroddiadau yn gweithio a chyfeiriodd at ddiffyg cyfarfodydd hybrid a fyddai'n cynorthwyo trafodaeth ar faterion o'r fath a chyflawni adroddiad geirwir. Nododd na fyddai'n cefnogi cymeradwyo'r adroddiad.

Nododd yr Arweinydd, wrth grynhoi, ei fod yn cael y drafodaeth yn siomedig iawn. Ailadroddodd y daith y dechreuodd yr adroddiad Hunanasesiad o ran cyfarfodydd her cyfoedion, gan gynnwys cadeiryddion craffu, ac yn yr haf aeth i Bwyllgorau Craffu gyda phawb yn cael cyfle i fod yn rhan o'r broses ehangach o lunio Cynllun Cyflawni Blyneddol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor a phawb hefyd yn rhan o'r gwaith o ystyried Cynlluniau Gwasanaeth, yr oedd pob un ohonynt wedi derbyn yr ymateb nodi. Anghytunodd gyda sylwadau'r Cynghorydd Hodges ynglŷn â Phwyllgorau Craffu yn derbyn adroddiadau i'w nodi. Ni anfonwyd adroddiadau gan y Cabinet i'w nodi a chroesawon nhw ddeialog adeiladol. Roedd trigolion y Fro yn haeddu gonestrwydd. Roedd Strategaeth y cytunwyd arni'n llawn gyda chyllid i gyflawni'r gyfnewidfa drafnidiaeth nad oedd yn ymwneud â bysus yn unig. Heb y Cynllun hwnnw, ni fyddai cyllid wedi bod ar gael i wella Heol yr Isffordd yn y Barri. Roedd adroddiadau blaenorol i'r Cabinet, a oedd ar gael i'r holl Aelodau, yn nodi'r wybodaeth hon ac o ble y daeth cyllid. Gan droi at sylwadau'r Cynghorydd Carroll yn ymwneud ag opsiynau hawdd, atgoffodd bawb nad oedd unrhyw opsiynau hawdd. Roedd yn rhaid cydbwysu blaenoriaethau o ran yr hyn yr oedd y Weinyddiaeth am ei wneud ac roedd y swyddogion wedi defnyddio cyfuniad o arloesedd, creadigrwydd a gwaith caled i ddatblygu strategaethau. Cyfeiriodd at

No.

frolio gwleidyddol a chroesawodd y mewnbwn ar y cyd gan bob un o'r 54 Aelod i gael y Cyngor drwy'r broses gosod cyllideb nesaf. Gan gyfeirio at sylwadau'r Cynghorydd Mahoney yn ymwneud â'r diffyg ymgynghori ar newidiadau diweddar i ffiniau, roedd wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn grŵp trawsbleidiol i ystyried y cynigion ond roedd wedi dewis peidio â mynychu.

I gloi, roedd Pwyllgorau Craffu'r Cyngor wedi ystyried yr Hunanasesiad ac nid oedd unrhyw beth wedi'i godi, fodd bynnag, pan ystyriwyd y mater yng nghyfarfod y Cyngor roedd sylwadau anghywir a brolio gwleidyddol nad oeddent yn adlewyrchu'n dda ar bawb. Ail-gadarnhaodd fod argymhellion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Cynhaliwyd Pleidlais Gofnodedig ar argymhellion yr adroddiad.

| <b>Aelodau</b>    | <b>Canys</b> | <b>Yn Erbyn</b> | <b>Ymatal</b> |
|-------------------|--------------|-----------------|---------------|
| Anne Asbrey       |              | √               |               |
| Julie Aviet       | √            |                 |               |
| Gareth Ball       | √            |                 |               |
| Rhiannon Birch    | √            |                 |               |
| Bronwen Brooks    | √            |                 |               |
| Gillian Bruce     |              | √               |               |
| Ian Buckley       | √            |                 |               |
| Lis Burnett       | √            |                 |               |
| Samantha Campbell | √            |                 |               |
| George Carroll    |              | √               |               |
| Charles Champion  |              | √               |               |
| Janice Charles    |              | √               |               |
| Millie Collins    |              | √               |               |
| Marianne Cowpe    |              | √               |               |
| Pamela Drake      | √            |                 |               |
| Vincent Driscoll  |              | √               |               |
| Anthony Ernest    |              | √               |               |

No.

|                          |   |   |  |
|--------------------------|---|---|--|
| Christopher Franks       |   | √ |  |
| Wendy Gilligan           | √ |   |  |
| Emma Goodjohn            | √ |   |  |
| Ewan Goodjohn            | √ |   |  |
| Stephen Haines           |   | √ |  |
| Howard Hamilton          | √ |   |  |
| Sally Hanks              | √ |   |  |
| William Hennessy         |   | √ |  |
| Nic Hodges               |   | √ |  |
| Mark Hooper              |   | √ |  |
| Catherine Iannucci       | √ |   |  |
| Gwyn John                | √ |   |  |
| Dr. Ian Johnson          |   | √ |  |
| Susan Lloyd-Selby        | √ |   |  |
| Belinda Loveluck-Edwards | √ |   |  |
| Julie Lynch-Wilson       | √ |   |  |
| Kevin Mahoney            |   | √ |  |
| Michael Morgan           | √ |   |  |
| Jayne Norman             | √ |   |  |
| Helen Payne              | √ |   |  |
| Elliot Penn              | √ |   |  |
| Sandra Perkes            | √ |   |  |
| Ian Perry                |   | √ |  |
| Joanna Protheroe         | √ |   |  |
| Ruba Sivagnanam          | √ |   |  |

No.

|                    |           |           |  |
|--------------------|-----------|-----------|--|
| Carys Stallard     | √         |           |  |
| Neil Thomas        | √         |           |  |
| Rhys Thomas        |           | √         |  |
| Margaret Wilkinson | √         |           |  |
| Eddie Williams     | √         |           |  |
| Mark Wilson        | √         |           |  |
| Nicholas Wood      |           | √         |  |
| <b>CYFANSWM</b>    | <b>30</b> | <b>19</b> |  |

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Terfynol Cyngor Bro Morgannwg 2022/23 fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 2 Tachwedd (Cofnod Rhif C143).

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.